Slothyn

Cyfeillgarwch / Parchu Eraill / Caredigrwydd

Rwy'n siŵr fy mod yn un o'r creaduriaid rhyfeddaf sy'n bod. Mae pawb yn gwneud hwyl am fy mhen. Y fi ydi'r creadur diocaf yn y byd i gyd yn grwn. Petai yna ras rhyngof fi a'r crwban wyddoch chi pwy fuasai'n ennill? Y crwban – wir i chi! Creadur y goedwig ydw i . Yn y coed mae nghartra i, yn hongian yn braf ar fy mhen i lawr. Fydda i ddim yn symud ryw lawer o ddydd i ddydd, o fis i fis, o flwyddyn i flwyddyn. Weithiau, mi fyddai i'n hongian o un cangen am ddyddiau. Ond fel mae hi'n nosi mi fydda i'n dechrau ymysgwyd ac yn mynd i chwilio am fwyd. Ond gan nad ydw i'n greadur heini dydw i ddim angen llawer o fwyd.

Mae anifeiliaid y fforest i gyd yn gwneud sbort am fy mhen. Pan mae'n nhw'n mynd heibio mae'n nhw'n siŵr o ddweud rhywbeth amdana i. Y dydd o'r blaen daeth un o deulu'r llew heibio ac meddai. "Y slothyn diog, dwyt ti ddim wedi symud ers pedwar diwrnod."

Yna, dyma ewig bychan yn carlamu'n heini drwy'r tyfiant ond pan welodd o fi yn hongian o'r gangen meddai, "Rwyt ti'n rhy ddiog i wneud dim, ond cysgu ar dy ben i lawr." Ac i ffwrdd a fo drwy'r fforest.

Un diwrnod daeth bachgen heibio. Un o blant y fforest. Mae wrth ei fodd yn chwarae ar lawr y fforest. Weithiau bydd yn dal pryfed a'u bwyta, dro arall bydd yn ceisio dal y glöynnod byw lliwgar ond mae'n nhw'n rhy gyflym iddo. Pan ddaeth ar wib heibio'r goeden oeddwn i'n hongian oddi arni, stopiodd yn stond. Edrychodd arnaf mewn braw a dechreuodd siarad yn araf efo mi.

"Be ydi dy enw di?" gofynnodd.

"Slothyn," meddwn innau yn ara deg. "Mae fy holl symudiadau i'n ara deg." Dywedais wrtho wedyn fod pawb yn gwneud sbort am fy mhen.

"Mae rhai yn galw enwau arna i. Mae rhai eraill yn dweud nad

ydw i yn da i ddim byd – nad oes yna ddim pwrpas i mi ar y ddaear yma."
Symudais yn nes at y bachgen bach. Yn araf iawn, cofiwch. Wrth i mi symud mae dŵr yn dod o'm llygaid. Roedd y bachgen yn meddwl fy mod yn crio.
"Paid ti â chrio," meddai'r bachgen wrthyf. "Mi fydda i yn ffrind i ti. Mi ddoi'i edrych amdanat bob dydd. Paid â bod yn drist."
"D...i...o...l...ch" meddwn wrtho, "M...a...e g...a...n r...y...w...u...n f...e...dd...w...l o...h...o...n...a...i w...e...d...i'r c...w...b...l."
Caeais fy llygaid a mynd i gysgu eto.

Weithiau, Arglwydd, mi fydda i'n teimlo'n unig iawn. A phan fydda i'n teimlo felly wnei di ddweud wrtha i nad ydw i ddim yn unig. Rwyt ti efo mi. Amen.

- Chwiliwch am lun o'r slothyn. Sut greadur ydi o?
- Pa bryd fyddwch chi'n teimlo'n unig?
- Beth fyddwch chi'n wneud pan fyddwch chi'n unig?